



# Y Cymro a osododd America ar y map

## SELYF HUGHES ar y trywydd o Ben Llŷn i Bensylfania

MAE HANES anturiaethau John Evans, (1770-99) o'r Waunfawr yn Arfon a'i deithiau yng Ngogledd America yn ei ymchwil am yr Indiaid Cymreig yn hysbys ddigon. Ef oedd y cyntaf i ddilyn cwrs afon Missouri am 1,8000 o filltiroedd o'r safle lle mae'n ymuno ag afon Mississippi ac i lunio map o'r siwrnai.

Ond y mae cyfraniad Cymro arall fu'n mapio rhan helaeth o'r Unol Daleithiau a Canada yn anhraethol fwy. Yn wir ar sail mapiau manwl cyntaf Evans arall – Lewis Evans o Lŷn y sefydlwyd mapiau safonol cyntaf o diriogaethau eang yn y Byd Newydd.

Ychydig iawn sy'n hysbys am deulu a chefndir Cymreig yr Evans yma, ond mae'n sicr iddo gael ei eni a'i fagu ym mhlwy Llangwnadl yn Llŷn gan ei fod yn nodi hynny yn ei ewyllys. Ysywaeth nid oes dogfennau o'r plwy ar gael sy'n cyfeirio at ei deulu. Ond yn *Dictionary of American Briography* fe noda Francis S. Drake iddo gael ei eni yn 1700, ond heb nodi ffynhonnell y wybodaeth. A bu farw ar Mehefin 11, 1756.

* * *

CEIR y cofnod cyntaf ohono yn America yn 1736 pan gyfeirir ato fel "*Gentleman*". Nid oes sicrwydd ble cyn hynny ond tybir iddo gael peth addysg glasurol yn ogystal â hyfforddiant mewn pynciau ymarferol gan y disgrifiwyd ef fel *Surveyor and Draughtsman*.

Credir hefyd iddo deithio'n bur eang trwy'r byd gan gynnwys India a De America.

Erbyn 1740 yr oedd cysylltiad agos rhyngddo a Benjamin Franklin, a'r ddau yn cynnal busnes yn Philadelphia.

Yn 1743 priododd â Martha Hoskins yn Christ Church, Philadelphia ac aethant i fyw i'r "tŷ ger y pwmp ar bwys y fynwent yn Arch Street." Ganed merch iddynt yn Hydref 1743 a'i bedyddio ym mis Tachwedd gyda Deborah Franklin yn fam fedydd iddi.

Bu ei briod Martha farw ymhen tair blynedd a hanner ac erbyn hynny 'roedd Lewis Evans wedi sefydlu ei hun fel un o ddinasyddion amlwg Philadelphia.

Parhaodd y berthynas glos rhyngddo a Benjamin Franklin a'u diddordebau'n cyd-redeg. Yn ymarferol roedd Franklin yn ymddiddori mewn datblygu llefydd tân – *stoves*, a byddai Lewis Evans yn gwneud planiau a lluniau manwl ohonynt i ofalu eu bod yn cael eu cynhyrchu'n effeithiol.

Diddordeb arall y ddau oedd ffenomenau naturiol megis trydan, magnetiaeth a stormydd a thymhestloedd a cheir cyfeiriadau at Lewis Evans yn cynnal dosbarthiadau eithriadol o lwyddiannus ar y pynciau yma yn y colegau a'r ysgolion.

Yr oedd yn ŵr egniol a brwdfrydig, yn ddi-hunan a chymwynasgar – efallai'n wir mai bod yn rhy gydwybodol a'i lladdodd yn y diwedd. Ond yr oedd yn uchel iawn ei barch yn nhalaith Pensylfania a William Penn yn un o'i gyfeillion agos – er iddo gyhuddo Penn o beidio a bod yn Grynwr cydwybodol oherwydd ei gyfeillgarwch â brenin Lloegr.

* * *

HEB AMHEUAETH ei gyfraniad amhrisiadwy oedd ei fapiau gyda'i wybodaeth drylwyr o'i wlad newydd a'i ddehongliadau sicr o'r gwybodaethau amrywiol a gasglodd yn ei ymgyrchoedd i'r gwylltineb.

Roedd ei arolygon yn fanwl iawn a'i fapiau yn rhagori ar bob un a'i blaenorodd. Ac fe freuddwydiai ac ysgrifennai ar ba bryd a pha fodd i ddatblygu'r tiroedd newydd.

Ymddiddorodd yn arbennig yn Nyffryn afon Ohio. Gwelai'r fangre yn rhyw fath o baradwys lle medrid datblygu cymdeithas, ac yn wir, wladwriaeth Brydeinig yng nghanol y cyfandir, a'r freuddwyd yma fu'n angau iddo yn y diwedd.

Roedd dadl gyda'r Ffrancwyr ynglŷn â pherchnogaeth y tir yma. Credai ef y dylesid gadael i'r Ffrancwyr gadw'r tiroedd yn y Gogledd – tua Canada – am mai ganddynt hwy roedd yr hawl bennaf, ond y dylesid eu rhwystro i ymledu tua'r Gorllewin.

Ond rhoi Dyffryn Ohio i'r Ffrancwyr a'u hymladd ar dir Canada oedd polisi Prydain, a'r Llywodraethwr Robert Hunter Morris yn gweithredu'r polisi gyda Lewis Evans yn ei wrthwynebu'n ffyrnig a'i gyhuddo o fradwriaeth.

Cythruddwyd y Llywodraethwr nes i Lewis Evans orfod ffoi i Efrog Newydd rhag cael ei erlyn yn y llysoedd. Aeth Morris ar ei ôl.

O Mawrth 9, 1756 ymlaen erlynwyd Lewis Evans mewn nifer o lysoedd, gyda Franklin a Pownall (ffrind arall o fapiwr a wnaeth ddefnydd helaeth iawn o fapiau Evans) yn ei gefnogi orau medrent.

Ceisiodd y Llywodraethwr gael dedfryd yn erbyn Lewis Evans a'i orchymyn i ddychwelyd i gael ei brofi yn Philadelphia, ond yr oedd y farn gyhoeddus mor gre o blaid y Cymro fel y gwrthodwyd y cais.

Ac fel yr âi hyn ymlaen, ar Fehefin 11, 1756 bu farw Lewis Evans.

* * *

BWRIAD ac uchelgais Lewis Evans oedd cyhoeddi mapiau o holl daleithiau America. Ni chafodd y dyddiau. Cyhoeddodd ei fap cyntaf yn 1749 *A Map of Pensilvania, New Jersey, New York and the three Delaware Counties* a'i waith mawr dylanwadol yn 1755, *A General Map of the Middle British Colonies* y bu pwyso trwm arno yn yr ymrafael a ddaeth uwchben ffiniau.

Cyhoeddodd argraffiadau o'i fapiau, heb eu cydnabod, yn Llundain ac yn 1776 cyhoeddwyd hwy gan ei hen gyfaill Thomas Pownall yn ei *Topographical Description of North America* gan roi'r elw i deulu anghennus Lewis Evans.